Rhif: **WG19673**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Ein cymwysterau – ein dyfodol

Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: **1 Hydref 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **20 Rhagfyr 2013**

# Ein cymwysterau – ein dyfodol

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Ymgynghoriad yw hwn ynghylch creu corff cymwysterau newydd i Gymru. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **20 Rhagfyr 2013** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Claire Habberfield<br>Y Tîm Deddfwriaeth<br>Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhadbost NAT 8910<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: qualificationswales@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Ffôn: 029 2082 6893 |

© Hawlfraint y Goron 2013
WG19673

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | | 1 |
| 1. | Crynodeb gweithredol | 3 |
| 2. | Y sefyllfa bresennol | 5 |
| 3. | Y ddadl dros newid | 9 |
| 4. | Ein gweledigaeth | 12 |
| 5. | Sut byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth | 15 |
| 6. | Geirfa | 27 |

# Rhagair y Gweinidog



Y llynedd, o dan gadeiryddiaeth Huw Evans, cyhoeddwyd adroddiad cytbwys a gwerthfawr ar y system gymwysterau yng Nghymru, sef yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*[1]. Roedd yr Adolygiad yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod y cymwysterau a gynigir i ddysgwyr yng Nghymru yn cael eu cydnabod a'u bod o werth ar draws y byd, er lles ein dysgwyr, ein cyflogwyr a hefyd economi Cymru. Ym mis Ionawr 2013, cafodd pob un o'r 42 argymhelliad a wnaed gan yr Adolygiad eu derbyn yn gyffredinol gan y Gweinidogion.

Un o'r prif argymhellion oedd y dylai Llywodraeth Cymru greu Cymwysterau Cymru yn unig gorff i fod yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau yng Nghymru nad ydynt ar lefel gradd. Ymhen amser, byddai'r corff hwn yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru.

Yn ganolog i'r argymhelliad i greu Cymwysterau Cymru, mae diogelu buddiannau dysgwyr yng Nghymru yn y ffordd orau bosibl, nid yn unig fel myfyrwyr ond hefyd fel dinasyddion cenedl ddwyieithog ac iddi economi a diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn deillio o'r angen i gryfhau a symleiddio'r strwythur rheoleiddio a dyfarnu yng Nghymru, ac i ddarparu cymwysterau sy'n fwy perthnasol i anghenion Cymru, yn genedlaethol ac yn ei pherthynas â gweddill y byd.

Os gweithredir ein cynigion, un corff annibynnol, sef Cymwysterau Cymru, fydd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd cymwysterau yng Nghymru, a bellach nid y Gweinidogion fydd â'r cyfrifoldeb dros reoleiddio cymwysterau. Yn y pen draw, Cymwysterau Cymru fydd yn gyfrifol am ddyfarnu cymwysterau, megis cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru, i bobl ifanc 14-16 oed. Bydd y corff newydd yn gwneud y system yn gliriach, yn fwy cydlynol ac yn fwy sefydlog er mwyn datblygu cymwysterau sy'n berthnasol a chynhwysfawr i fodloni anghenion ein dysgwyr yma yng Nghymru.

Trwy drawsnewid ein system gymwysterau fel hyn, byddwn yn cryfhau statws y cymwysterau a gynigir yng Nghymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn ganolbwynt awdurdodol ac annibynnol i Llywodraeth Cymru ac eraill sy'n gweithio ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fanteisio arno. Bydd yn sicrhau bod penderfyniadau rheoleiddio a dyfarnu yn cael eu gwneud yn annibynnol ar weithgarwch gwleidyddol, a bydd mewn sefyllfa i roi cyngor a thystiolaeth ddibynadwy a fydd o gymorth wrth ddatblygu polisïau.

[1] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/revofqualen/

Mae dysgwyr, athrawon, hyfforddwyr, darlithwyr, cyrff dyfarnu, cyflogwyr, prifysgolion, prentisiaid a rhieni i gyd yn bartneriaid sy'n ein helpu i ddatblygu system yng Nghymru a fydd yn addas ar gyfer ein gwlad. Trwy greu Cymwysterau Cymru, byddwn yn helpu rhai o’r partneriaid hyn i ddarparu cymwysterau hen a newydd ac eraill i fanteisio arnynt, gan sicrhau ansawdd ar lefel sy'n golygu bod ein cymwysterau yn cael eu hystyried ymhlith y gorau yn y byd.

Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at weld y datblygiadau hyn yn mynd rhagddynt. Er mwyn creu'r corff Cymwysterau Cymru, bydd yn rhaid llunio deddfwriaeth newydd, ac mae fy swyddogion a minnau'n awyddus i gael eich sylwadau er mwyn inni allu datblygu manylion ein cynigion a sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru. Rwy'n awyddus i gael eich syniadau, eich sylwadau a'ch awgrymiadau ynghylch y cynigion hyn, er mwyn inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cymwysterau yn cymharu'n ffafriol â chymwysterau gorau'r byd.

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Hydref 2013

# 1. Crynodeb gweithredol

1.1 Roedd yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* yn argymell y dylem ni, sef Llywodraeth Cymru, greu Cymwysterau Cymru yn unig gorff sydd â chyfrifoldeb dros reoleiddio cymwysterau nad ydynt ar lefel gradd a sicrhau eu hansawdd. Ymhen amser, bydd y corff hwn hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol a ddarperir yng Nghymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru, gan dynnu ynghyd y prif swyddogaethau sy'n ymwneud â dylunio, datblygu a dyfarnu cymwysterau yn ogystal â materion yn ymwneud â chymorth a sicrwydd ansawdd, a hynny o dan ofal un corff annibynnol ac awdurdodol.

1.2 Ein gweledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru yw y bydd:

- yn symleiddio ac yn proffesiynoli'r system gymwysterau;
- yn craffu ar gymwysterau o fewn y system honno, gan eu gwerthuso a'u gwella;
- yn cynorthwyo rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu â nhw;
- yn ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru, gan sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael;
- yn darparu cymwysterau o safon ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

1.3 Rydym yn cynnig mai Cymwysterau Cymru ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y cymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu yng Nghymru, a hynny o fis Medi 2015. Bellach, nid Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau. Fel corff statudol annibynnol, bydd Cymwysterau Cymru yn y sefyllfa orau i sicrhau bod y cymwysterau a ddarperir yn bodloni ein hanghenion diwylliannol ac economaidd yn ogystal ag anghenion ein dysgwyr.

1.4 Cymwysterau Cymru fydd y prif awdurdod o ran cymwysterau yng Nghymru, a bydd yn rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion Cymru ar faterion perthnasol yn ogystal â gwybodaeth, cyngor a chymorth i amrywiaeth eang o randdeiliaid. Bydd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt yn gwybod am werth y cymwysterau a ddarperir yma.

1.5 Yn y pen draw, Cymwysterau Cymru fydd â'r cyfrifoldeb am ddyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed, yn ogystal â chymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Trwy sicrhau mai dim ond un fersiwn o bob un o'r cymwysterau allweddol hyn sydd ar gael, gallwn leihau'r baich a chael gwared ar y cymhlethdodau sy'n rhan annatod o'r farchnad gystadleuol bresennol.

1.6 Bydd Cymwysterau Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a bydd yn rhydd i wneud penderfyniadau annibynnol a phroffesiynol ar f aterion yn ymwneud â chymwysterau. Bydd yn arwain ar wahanol agweddau ar waith datblygu polisi cymwysterau, gan fod yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau neu sut bydd yn eu cyflawni yn y dyfodol.

# 2. Y sefyllfa bresennol

## Dylunio, datblygu a rheoleiddio cymwysterau

2.1 Ers 2006, Gweinidogion Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau perthnasol, ("*relevant qualifications*"[2]), a datblygu polisi cymwysterau yng Nghymru. Cyflawnir y swyddogaethau hyn gan swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru, ar ran y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

2.2 Rydym ni, sef Llywodraeth Cymru, yn pennu gofynion ar gyfer cymwysterau a reoleiddir ac ar gyfer y cyrff dyfarnu sy'n eu cynnig. Rydym yn gwneud hynny mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys cydnabod ('recognition'), (sef cymeradwyo corff dyfarnu i sicrhau bod ganddo'r gallu i gynnig cymwysterau cyn iddo gael gweithredu o fewn y system a reoleiddir), ac achredu ('accreditation') (sef adolygu a chymeradwyo cymhwyster i sicrhau ei fod yn bodloni'r meini prawf priodol cyn iddo gael ei gynnig i ddysgwyr). Os bydd corff dyfarnu yn cael ei gydnabod, mae hynny wedyn yn amodol ar y ffaith ei fod yn parhau i gadw at amodau cydnabyddiaeth (ongoing 'conditions of recognition'), ac rydym yn monitro ei gydymffurfiaeth â'r amodau hyn fel rhan o'n gweithgarwch rheoleiddio parhaus.

2.3 Mae manylder y gofynion ar gyfer cymwysterau yn amrywio, gyda gofynion mwy manwl a phenodol ar gyfer y prif gymwysterau a gynigir i bobl ifanc 14-19 oed, megis cymwysterau TGAU neu Safon Uwch, na'r gofynion ar gyfer cymwysterau i ddysgwyr dros 19 oed, megis cymwysterau galwedigaethol. Yn y gorffennol, rydym wedi cyflawni llawer o'r gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r gofynion hyn ar y cyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2.4 Nodir lefel ar gyfer cymwysterau er mwyn dangos pa mor anodd ydynt, a rhoddir gwerth credydau sy'n seiliedig ar hyd yr amser ar gyfartaledd y mae disgwyl i ddysgwr ei gymryd i gwblhau'r cymhwyster. Mae hyn yn digwydd yn achos cymwysterau galwedigaethol yn bennaf, ac mae'n ei gwneud yn bosibl cymharu cymwysterau a'u deall trwy Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

2.5 Mae gan Weinidogion Cymru nifer o bwerau y gallant eu defnyddio i sicrhau nad yw cyrff dyfarnu yn torri'r amodau cydnabyddiaeth. Mae'r pwerau hynny'n cynnwys pwerau i ddirwyo cyrff dyfarnu neu i gyflwyno cyfarwyddyd iddynt. Gallai'r cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff

[2] Mae Deddf Addysg 1997 yn diffinio "*relevant qualifications*" fel cymwysterau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu hadolygu'n barhaus. Nid yw pob cymhwyster yng Nghymru yn cael ei reoleiddio. Er ein bod yn rheoleiddio pob cymhwyster TGAU a Safon Uwch, a hefyd lawer o gymwysterau galwedigaethol, mae yna lawer o gymwysterau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Ymhlith y rhain mae cymwysterau defnyddio meddalwedd sydd wedi ennill eu plwyf, fel y cymwysterau a ddarperir gan gwmnïau TG, cymwysterau a oruchwylir gan gyrff eraill, neu dystysgrifau a gyflwynir gan sefydliadau hyfforddi i ddangos bod dysgwr wedi cwblhau cwrs byr.

dyfarnu naill ai gymryd camau penodol neu beidio â chymryd camau penodol. Mae'n bosibl gorfodi cyfarwyddyd o'r fath trwy orchymyn llys.

2.6 Rydym yn monitro cymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu ac yn cyhoeddi adroddiadau arnynt, gan ymchwilio i unrhyw gwynion ac achosion o gamymddygiad perthnasol.

2.7 Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau a gynigir i ddysgwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, lle bydd yr un cymhwyster yn cael ei gynnig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn Lloegr, mae hynny'n golygu gweithio gydag Ofqual, ac yng Ngogledd Iwerddon mae'n golygu gweithio gyda'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA). Hefyd cynigir llawer o gymwysterau galwedigaethol yn yr Alban, ac mae'r rheini'n cael eu rheoleiddio gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA).

## Dyfarnu cymwysterau yng Nghymru

2.8 Ar hyn o bryd, mae cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn cael eu dyfarnu o fewn strwythur sy'n gweithredu fel marchnad gystadleuol, gyda phump o gyrff dyfarnu, sef AQA, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC, yn cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn cyhoeddi nifer o ofynion penodol y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu bodloni wrth ddarparu'r cymwysterau hyn. Cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion, mae'r cyrff dyfarnu'n rhydd i ddatblygu cymwysterau sy'n cynnig y cynnwys a'r strwythur asesu sy'n gweddu orau i anghenion eu darparwyr yn eu barn nhw. Yn aml, mae hynny'n golygu bod cymwysterau sydd â'r un teitl yn gallu bod yn wahanol iawn i'w gilydd.

2.9 Mae dros 120 o gyrff dyfarnu eraill hefyd yn cael eu cydnabod o ran cynnig cymwysterau rheoleiddiedig eraill yng Nghymru, gyda'r cyrff hyn yn dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn bennaf.

2.10 Mae ysgolion, colegau a darparwyr dysg eraill yn rhydd i ddewis cymwysterau a ddarperir gan unrhyw gorff dyfarnu. Mae nifer o wahanol bethau yn gallu dylanwadu ar eu dewisiadau, er enghraifft, anghenion y dysgwyr neu'r hyn sydd orau ganddynt, mesurau perfformiad ar gyfer sefydliadau, cyfyngiadau cyllido, y cyfle i ddysgu cynnwys penodol, neu farn sefydliadau addysg uwch neu gyflogwyr.

2.11 Mae cymhwyster yn cael ei ddyfarnu gan y corff dyfarnu ar ôl iddo f odloni ei hunan bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion y cymhwyster. O ran TGAU a Safon Uwch, mae hynny'n cynnwys penderfynu hefyd pa radd y dylid ei rhoi. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r fethodoleg ar gyfer cadarnhau'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r cymwysterau hyn, a hynny fel arfer ar sail cytundeb gyda'r rheoleiddwyr yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r data am ddysgwyr yn Lloegr wedi dylanwadu'n gryf ar y fethodoleg hon.

2.12 O ran dyfarnu cymwysterau eraill, megis cymwysterau galwedigaethol, rhaid penderfynu a yw'r dysgwr wedi rhoi digon o dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cyrraedd lefel y cymhwysedd y mae ei angen i ennill y cymhwyster.

## Cymorth i athrawon

2.13 Mae pob corff dyfarnu yn rhoi cymorth i athrawon a hyfforddwyr i'w helpu i gynnig ei gymwysterau. Gallai'r cymorth hwnnw gynnwys adnoddau ar-lein neu ffisegol, cylchlythyron, gwybodaeth gyfredol, sesiynau datblygu proffesiynol parhaus neu gyngor un-i-un. Er enghraifft, mae rhai cyrff dyfarnu'n rhedeg sesiynau datblygu proffesiynol i athrawon i'w helpu i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir i strwythur cymhwyster neu ei ofynion asesu.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

2.14 Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disgrifio'r hyn y mae angen i rywun ei wneud, ei wybod a'i ddeall er mwyn iddo allu cyflawni swydd neu swyddogaeth benodol. Mae'r Safonau hyn yn sail ar gyfer datblygu cymwysterau galwedigaethol a phrentisiaethau yn y DU. Mae Cynghorau Sgiliau Sector, sef sefydliadau annibynnol a arweinir gan gyflogwyr ac sy'n gweithredu ar draws y DU, yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Safonau sy'n disgrifio gofynion galwedigaethol ar gyfer diwydiant penodol. Mae'r Safonau'n cael eu defnyddio'n bennaf at ddibenion cymwysterau a hyfforddiant, ond mae'n bosibl hefyd eu defnyddio ar gyfer recriwtio a rheoli perfformiad, datblygu gyrfa, datblygu proffesiynol ac fel rhan o'r broses gynllunio/ad-drefnu. Rydym yn cael ein cynrychioli ar banel pedair gwlad sy'n dod i gytundeb ynghylch dyrannu cyllid blynyddol ar gyfer y Safonau, ac sy'n cymeradwyo'r holl weithgarwch a gynigir neu sydd eisoes wedi ei gyflawni mewn perthynas â nhw. Ar hyn o bryd mae yna rywfaint o drafod ynghylch dyfodol y Safonau hyn.

## Mentrau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Ewropeaidd

2.15 Rydym yn cefnogi mentrau Hyfforddiant Galwedigaethol yr Undeb Ewropeaidd. Mae swyddogion o'r Llywodraeth yn aelodau o grŵp cydgysylltu ar gyfer y DU, sy'n rhoi ar waith amrywiaeth o fentrau'r Undeb Ewropeaidd, megis y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd, y fframwaith Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, a'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar gyfer dilysu dysgu gydol oes.

## Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd

2.16 Ar hyn o bryd, ni sy'n gyfrifol am oruchwylio Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd. Mae Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd yn darparu strwythur ar gyfer asesu a chydnabod llwyddiannau dysgwyr.

Er nad yw'n arwain yn uniongyrchol at ennill cymhwyster, mae'n gallu pontio rhwng dysgu gydol oes ac astudio ar gyfer cymwysterau ffurfiol, a hynny i amrywiaeth eang o ddysgwyr, gan gynnwys er enghraifft, rhai o'n dinasyddion mwyaf difreintiedig. Hefyd mae'n bosibl defnyddio'r dysgu hwn i ateb y galw am ddarparu dysgu ac asesu pwrpasol ar gyfer sefydliadau cenedlaethol megis Cyngor Gofal Cymru. Nid yw'r holl ddysgu'n cael ei asesu a'i gydnabod, ac mae Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd yn berthnasol i set ddysgu gyfyngedig yn unig.

## Darparu gwybodaeth

2.17 Mae yna nifer mawr o ffynonellau sy'n rhoi gwybodaeth am gymwysterau yng Nghymru, gyda llawer o'r wybodaeth honno'n cael ei darparu gan gyrff dyfarnu unigol. Rydym yn rheoli Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru sy'n helpu i egluro'r system gymwysterau, ac sy'n darparu llwybr ar gyfer cydnabod addysg a hyfforddiant arall yng Nghymru. Hefyd rydym yn cynnal cronfa ddata ar y we sy'n rhoi gwybodaeth am gymwysterau a reoleiddir.[3]

2.18 Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ac astudiaethau mewn perthynas â'r system gymwysterau, gan gynnwys adroddiadau monitro, astudiaethau o'r farchnad, ac ymchwiliadau ehangach.[4] Mae rhai adroddiadau wedi eu cyhoeddi o'r blaen ar y cyd ag Ofqual a CCEA, megis yr Adroddiadau Blynyddol ar y Farchnad Gymwysterau.

[3]Cynhelir y Gronfa Data Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru www.daqw.org.uk. Yn ogystal â hynny, trwy Ofqual, mae'r Gofrestr Cymwysterau Rheoleiddiedig yn cynnig rhagor o wybodaeth am gymwysterau: http://register.ofqual.gov.uk.
[4]Gellir gweld enghreifftiau ohonynt yn http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/qualificationregulation/regpublication/reports/

# 3. Y ddadl dros newid

3.1 Roedd yr Adolygiad o Gymwysterau 14-19 yn cydweithio’n agos â rhanddeiliaid er mwyn nodi eu sylwadau am y system bresennol. Wrth gynnal yr adolygiad, nodwyd nifer o broblemau sy'n amharu ar effeithiolrwydd y system, a thynnwyd sylw eto at y rhain gan ddigwyddiadau yn ystod cyfnod yr Adolygiad ac wedyn.

## Y cymhlethdodau

3.2 Mae Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn anarferol ymhlith gwledydd Ewrop gan fod ganddynt gyrff dyfarnu sy'n cystadlu i ddarparu asesiadau o'r prif gymwysterau a gynigir yn eu hysgolion. Mae gan y rhan fwyaf o wledydd eraill, fel yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon, un corff cenedlaethol sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon.

3.3 Mae defnyddio strwythur cystadleuol yn creu gwahaniaethau rhwng cymwysterau tebyg a gynigir gan wahanol gyrff dyfarnu. O ganlyniad, mae'n anodd sicrhau eu bod yn gyfwerth, o ran safon y gwaith y mae'n rhaid i ddysgwr ei chyrraedd i ennill gradd benodol mewn fersiynau gwahanol o'r un cymhwyster. Er ei bod yn anodd, mae'n bwysig sicrhau nad yw unrhyw ddysgwr yn cael mantais annheg nac yn dioddef o anfantais annheg. Mae'r gwaith, y mae angen ei wneud i gymharu cymwysterau a’u dadansoddi yn waith cymhleth sy'n llyncu amser, gan ei fod ar hyn o bryd yn dibynnu ar gymariaethau ystadegol dyrys. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'n dal yn bosibl y gallai rhywun honni neu gredu, yn gau neu’n gymwys, bod rhai cymwysterau'n 'haws' na'i gilydd.

3.4 Mae gennym gyfle i leihau'r baich rheoleiddio hwn a'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm ag ef, gan ennyn mwy o hyder yn y cymwysterau a ddarperir yng Nghymru. Trwy fod un corff yn darparu'r unig gymhwyster sydd ar gael ym mhob maes pwnc ar bob lefel, byddem yn gallu gwarantu cysondeb ledled pob canolfan yng Nghymru. Byddai rhanddeiliaid yn gallu cymharu rhanbarthau, ysgolion, colegau ac ymgeiswyr, heb fod yn rhaid iddynt ystyried cynnwys amrywiol y cyrsiau na dibynnu ar ddata ystadegol cymhleth. Trwy gael un cymhwyster ar gyfer pob maes pwnc, a thrwy gael gwared ar y cystadlu sy'n digwydd mewn perthynas â chymwysterau TGAU a Safon Uwch, ni fydd unrhyw bosibilrwydd y bydd cyrff dyfarnu a chymwysterau'n cael eu dewis oherwydd mai nhw yw'r 'hawsaf', gan na fyddai unrhyw achos i gredu hynny. Mae angen symleiddio'r system, egluro'r cyfrifoldebau, cael gwared cyn belled â phosibl ar gymhellion amheus a allai fod yn andwyol, a hefyd lleihau biwrocratiaeth.

## Blaenoriaethau sy'n gwrthdaro

3.5 Hyd yn ddiweddar, mae penderfyniadau ynghylch y rhan fwyaf o gymwysterau wedi cael eu gwneud ar y cyd â Lloegr a Gogledd

Iwerddon. Yn 2010, sefydlwyd Ofqual yn ffurfiol fel y corff sy'n rheoleiddio cymwysterau ar gyfer Lloegr. Ar yr un pryd, aethpwyd ati i gyflwyno newidiadau'n raddol i'r polisi cymwysterau yn Lloegr, sef newidiadau na chawsant eu cyflwyno yng Nghymru. Mae'r sefyllfa honno wedi cael ei phwysleisio ymhellach gan gyhoeddiadau diweddar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr ynghylch y bwriad i gyflwyno newidiadau pwysig i'r trefniadau TGAU a Safon Uwch yn y wlad honno. Fel y dangosodd yr *Adolygiad*, nid oedd rhanddeiliaid yng Nghymru yn cefnogi'r newidiadau hyn. Mae'r datblygiadau hyn wedi dechrau tanseilio'r cyd-destun lle mae rheoleiddwyr yn gweithio ar y cyd, ac maent yn rhannol gyfrifol am y ffaith bod rheoleiddio cymwysterau a rennir wedi dod yn broses fwyfwy dyrys. Cododd enghraifft amlwg o hyn yn yr haf 2012, pan ddaeth rheoleiddwyr i benderfyniadau gwahanol ynghylch pennu canlyniadau cymwysterau Saesneg iaith TGAU.

3.6 A siarad yn ehangach, nid ydym bellach o'r farn bod gweithredu un system gymwysterau ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn briodol o safbwynt Cymru, o fewn cyd-destun lle mae cyfrifoldebau dros bolisïau addysg wedi eu datganoli a lle mae'r systemau addysg yn y gwahanol rannau o'r DU yn dod yn fwyfwy unigryw. Mae'n hanfodol bod Cymru yn meddu ar ei system gymwysterau ei hunan i fodloni anghenion unigryw ei chymuned addysg a'i holl ddinasyddion eraill.

## Anghenion diwylliannol ac economaidd yng Nghymru

3.7 Yn y gorffennol, mae anghenion Lloegr wedi dylanwadu'n drwm ar y polisi cymwysterau yng Nghymru. Serch hynny, dyma gyfle i ymateb i anghenion Cymru, gan sicrhau bod y cymwysterau a gynigir yma yn gynhwysfawr, yn ddilys ac yn rhydd rhag unrhyw ddylanwadau diangen o'r tu allan. Mae'r trefniadau gweithio presennol yn cyfyngu ar ein gallu i ymateb i faterion sy'n effeithio ar Gymru yn unig, fel er enghraifft pennu cynnwys pynciau megis Hanes neu Ddaearyddiaeth, neu sicrhau dilyniant a chydlyniaeth o ran y cwricwlwm hyd at 14 oed yng Nghymru. Mae'n amser da inni ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y cymwysterau a gynigir yma.

3.8 Fel y pwysleisiwyd yn yr Adolygiad, rhaid i'n system gymwysterau genedlaethol fodloni anghenion pob un o'n dysgwyr. Rhaid iddi adlewyrchu'r ethos o gynhwysiant sy'n rhan annatod o'n system addysg a rhaid iddi hefyd ymateb yn effeithiol i anghenion cenedl ddwyieithog sydd â'i diwylliant cyfoethog ei hun. Ar hyn o bryd, mae'r dewis o ran cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn amrywio, yn arbennig ym maes cymwysterau galwedigaethol, ac mae angen ymdrechu i wella'r ddarpariaeth ddwyieithog ar draws ystod gyfan y cymwysterau a gynigir yng Nghymru.

## Y ddadl dros newid – cwestiynau

1. A oes unrhyw broblemau eraill sy'n amharu ar effeithiolrwydd y system bresennol neu a oes unrhyw wendidau eraill?
2. A oes unrhyw nodweddion penodol o'r system bresennol y byddech yn awyddus i'w cadw?

# 4. Ein gweledigaeth

4.1 Mae Argymhelliad 5 yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* yn dweud:

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru. Dros amser, dylai Cymwysterau Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o'r cymwysterau i ddysgwyr 14 i 16. I ddysgwyr ôl-16, dylai Cymwysterau Cymru ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o'r cymwysterau cyffredinol a dylai hefyd reoleiddio cymwysterau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau dyfarnu eraill. Dylai Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru gydweithio i lunio'r system gymwysterau genedlaethol ar gyfer Cymru a rhesymoli a chryfhau'r prosesau ar gyfer rheoleiddio a gwella'n barhaus, gan ddysgu oddi wrth y model sydd ar waith yn yr Alban.*

4.2 Ein gweledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru yw y bydd:

- yn symleiddio ac yn proffesiynoli'r system gymwysterau;
- yn craffu ar gymwysterau o fewn y system honno, gan eu gwerthuso a'u gwella;
- yn cynorthwyo rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu â nhw;
- yn ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru, gan sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael;
- yn darparu cymwysterau o safon ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

## Symleiddio a phroffesiynoli'r system gymwysterau

4.3 Cymwysterau Cymru fydd y prif awdurdod ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, a bydd yn rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion Cymru ar faterion perthnasol.

4.4 Ymhen amser, bydd Cymwysterau Cymru yn tynnu ynghyd y prif swyddogaethau sy'n ymwneud â dylunio, datblygu a dyfarnu cymwysterau, yn ogystal â'r materion sy'n ymwneud â chymorth a sicrhau ansawdd.

4.5 Bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ei ymdrechion ar sicrhau ansawdd y prif gymwysterau a gynigir yng Nghymru, yn enwedig y cymwysterau hynny sy'n rhan o gymhwyster blaengar Bagloriaeth Cymru. Bydd yn sicrhau bod y cymwysterau hynny, a Bagloriaeth Cymru ei hunan, yn parhau'n addas i'w diben a'u bod yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysg ledled Cymru a thu hwnt.

## Craffu ar gymwysterau o fewn y system honno, gan eu gwerthuso a'u gwella

4.6 Bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ar ddulliau ymarferol ac ystyrlon o sicrhau ansawdd y cymwysterau a gynigir yng Nghymru . Bydd yn gweithredu o fewn diwylliant o wella parhaus, gyda phwyslais cryf ar adolygu a gwerthuso. Bydd yn cymeradwyo cymwysterau a gynigir yng Nghymru, gan graffu arnynt a'u hadolygu a'u gwerthuso, a bydd yn disgwyl i'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hynny ddefnyddio dulliau gweithredu tebyg. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cyrff dyfarnu'n adolygu ac yn cynnal hunanwerthusiadau er mwyn gwella'u harlwy, a hynny er lles Cymru, ei dysgwyr a'i heconomi, gan sicrhau bod dysgwyr yn gyflogadwy.

## Cynorthwyo rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw

4.7 Bydd Cymwysterau Cymru yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y dysgwyr, y rheini sy'n cynnig cymwysterau (megis cyrff dyfarnu), a'r rheini sy'n darparu cymwysterau (megis ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant). Bydd y sawl sy'n cynnig llwybrau ar gyfer dysgwyr, fel cyflogwyr a phrifysgolion, yn chwarae rhan hanfodol ym mhob cam o gylch bywyd cymhwyster. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â llawer o sefydliadau cenedlaethol, economaidd, dinesig a diwylliannol, hefyd yn bartïon â buddiant oherwydd y rhan y mae cymwysterau yn ei chwarae yn y gwaith o ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen i gymryd rhan yn economi a diwylliant ein gwlad.

4.8 Bydd Cymwysterau Cymru yn cydweithio ag eraill i roi cymorth proffesiynol i athrawon a hyfforddwyr i'w helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau ar gyfer ei gymwysterau.

## Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru, gan sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael

4.9 Bydd Cymwysterau Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a bydd yn gwneud penderfyniadau annibynnol a phroffesiynol ar faterion yn ymwneud â chymwysterau, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch graddio a deilliannau cymwysterau eraill, a hefyd ansawdd y cymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu. Bydd yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch cymwysterau yng Nghymru yn cael eu gwneud yng Nghymru, yn rhydd o unrhyw ddylanwadau diangen o'r tu allan. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth o Gymru a thu hwnt, er mwyn sicrhau bod ei gymwysterau'n cael eu hystyried yn gyfwerth â chymwysterau ledled y byd, a bod y cymwysterau a gynigir yng Nghymru yn cael eu derbyn ar draws y DU, Ewrop ac yn rhannau eraill o’r byd.

4.10 Cymwysterau Cymru fydd y sefydliad blaenllaw ac awdurdodol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru. Bydd ei amlygrwydd a’i annibyniaeth yn ennyn hyder yn y cymwysterau a gynigir yng Nghymru, gan sicrhau eu bod yn fwy derbyniol yn y DU a thu hwnt. Bydd Cymwysterau Cymru yn darparu cyngor a fydd ar gael yn rhwydd ac a fydd yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau perthnasol ar gyfer rhanddeiliaid â buddiant. Bydd yn cyhoeddi adroddiadau perthnasol ar ei gymwysterau ei hun ac ar gymwysterau a gynigir gan y cyrff dyfarnu y mae'n eu goruchwylio.

## Darparu cymwysterau o safon ar gyfer dysgwyr yng Nghymru

4.11 Nod Cymwysterau Cymru yw darparu cymwysterau o fri rhyngwladol, sy'n cael eu cydnabod felly. Bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru a thu hwnt i wella ei weithgareddau'n barhaus. Bydd creu un corff i fodloni anghenion Cymru yn helpu i warantu'r ddarpariaeth o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan roi’r cyfle i ddysgwyr, ysgolion a cholegau ddewis iaith astudio mewn amrywiaeth o feysydd pwnc.

4.12 Bydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau bod y cymwysterau allweddol sydd wedi eu datblygu'n benodol ar gyfer nifer helaeth o bobl ifanc Cymru, yn rhai perthnasol, trylwyr, cynhwysfawr a theg. Mewn gwlad fach fel Cymru, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros gael sefyllfa lle mae pobl ifanc yn astudio fersiynau gwahanol o'r un cymhwyster mewn un gyfres o arholiadau. Trwy greu un corff sy'n gyfrifol am ddyfarnu'r rhan fwyaf o'r cymwysterau a gynigir i bobl ifanc 14-16 oed, yn ogystal â chymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru, gallwn symleiddio a chryfhau'r system yma yng Nghymru.

## Ein gweledigaeth – cwestiynau

3. Beth yw eich barn am y weledigaeth yr ydym yn ei chynnig ar gyfer Cymwysterau Cymru?

# 5. Sut byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth


## Llywodraethu ac atebolrwydd

5.1 Rydym yn awyddus i sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff statudol annibynnol sydd ag amrywiaeth o swyddogaethau statudol yn ymwneud â chymwysterau yng Nghymru. Bydd gan Gymwysterau Cymru fwrdd a fydd yn y pen draw yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau statudol y corff. Bydd y penodiadau i'r Bwrdd a phenodiad y Prif Weithredwr yn benodiadau cyhoeddus a fydd yn cael eu gwneud yn unol ag egwyddorion Nolan ar gyfer Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

5.2 O ystyried proffil uchel a natur gymhleth busnes Cymwysterau Cymru yn y dyfodol, ynghyd â'r hyn sydd yn y fantol, bydd angen sicrhau bod trefniadau atebolrwydd cadarn yn rhan annatod o'r system newydd, er mwyn diogelu annibyniaeth y corff newydd hwn. Er enghraifft, rydym yn cynnig bod dyletswydd yn cael ei rhoi ar Gymwysterau Cymru i gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yr adroddiad hwnnw'n disgrifio sut mae wedi cyflawni ei amcanion statudol yn ystod y flwyddyn flaenorol a sut bydd yn gwneud hynny yn y dyfodol.

5.3 Gan mai Llywodraeth Cymru fydd prif ffynhonnell cyllid Cymwysterau Cymru, byddwn yn cydweithio'n agos â'r corff newydd. Bydd hynny'n digwydd trwy gytundebau cyllido cylchol, a fydd yn pennu cyllideb Cymwysterau Cymru ac yn darparu ar ei chyfer; llythyron cylch gwaith a fydd yn nodi'r prif gyfrifoldebau y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gymwysterau Cymru eu cyflawni; a phwerau ymyrryd a ddefnyddir yn ôl yr angen. Mae'r diagram isod yn dangos sut byddwn yn gwneud Cymwysterau Cymru yn atebol.

Trefniadau arfaethedig Cwmwysterau Cymru ar gyfer atebolrwydd ac adrodd




5.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a phennu'r cwricwlwm hyd at Gyfnod Allweddol 3 a byddwn hefyd yn cadw'r hawl i benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â pholisi cymwysterau, gan gynnwys, er enghraifft, rhai agweddau ar y cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4. Cymwysterau Cymru fydd yn bennaf gyfrifol am ddarparu arbenigedd mewn perthynas â chymwysterau a sut maent yn cael eu darparu yng Nghymru. Er y bydd ganddo rôl allweddol yn y gwaith o weithredu polisïau Gweinidogion Cymru ar gymwysterau, er enghraifft o ran meysydd allweddol cynnwys y cymwysterau, bydd hefyd yn datblygu ac yn argymell polisïau i Weinidogion fel rhan o'i rôl gynghori. Felly, bydd angen i'r ddeddfwriaeth nodi'n benodol bod modd i Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru weithio ar y cyd. Bydd angen rhoi pwerau i'r corff newydd er mwyn iddo allu rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru, p'un a yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio'r cyngor hwnnw ai peidio.

5.5 Llywodraeth Cymru fydd yn cyllido Cymwysterau Cymru. Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai Cymwysterau Cymru gynnig rhai gwasanaethau etc yng Nghymru a thu hwnt, er mwyn cynhyrchu incwm a fyddai'n lleihau'r baich ar drethdalwyr neu a allai gael ei fuddsoddi i wella'r hyn y mae'n ei gynnig yng Nghymru. Wrth wneud hynny, byddai'n rhaid gofalu na fyddai unrhyw effaith negyddol ar fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru.

## Swyddogaethau'r corff newydd

5.6 Bydd i Gymwysterau Cymru dair swyddogaeth gyffredinol :

- Yn gyntaf, bydd yn sefydlu ei hun fel corff gwella ansawdd sy'n sicrhau ansawdd cymwysterau yng Nghymru;
- Bydd yn rhoi gwybodaeth, cymorth a chyngor i randdeiliaid ac i Lywodraeth Cymru;
- Ymhen amser, bydd yn gyfrifol am ddyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, yn ogystal â chymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

5.7 Ar y dechrau, bydd swyddogaethau Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd cymwysterau a ddarperir gan gyrff dyfarnu allanol, a'u goruchwylio. Bydd y ddeddfwriaeth y mae ei hangen i sefydlu'r corff newydd yn golygu y bydd y swyddogaethau a'r pwerau a roddir i Gymwysterau Cymru yn disodli swyddogaethau a phwerau rheoleiddio presennol Gweinidogion Cymru. Bydd ei swyddogaethau a'i bwerau yn galluogi Cymwysterau Cymru i weithredu model rheoleiddio newydd, sy'n canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a gwella cymwysterau, ond sydd hefyd yn cadw rhai o elfennau'r system bresennol er mwyn diogelu buddiannau'r dysgwyr.

5.8 Bydd Cymwysterau Cymru yn darparu gwybodaeth annibynnol am gymwysterau i amrywiaeth eang o randdeiliaid. Bydd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt yn ymwybodol o werth y cymwysterau a ddarperir yma.

5.9 Ymhen amser, dim ond Cymwysterau Cymru fydd yn cynnig y rhan fwyaf o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru, yn ogystal â chymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru naill ai'n gwneud hynny ei hunan neu bydd yn gweithio gyda chyrff dyfarnu eraill. Mae'n debygol y bydd marchnad gystadleuol yn parhau ar gyfer llawer o gymwysterau eraill, gan gynnwys y rhan fwyaf o gymwysterau ar gyfer dysgwyr dros 19 oed, llawer o gymwysterau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr 16-19 oed, a rhai cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed. Cymwysterau Cymru fydd yn goruchwylio'r cymwysterau hyn trwy'r broses sicrhau ansawdd, a bydd angen i gyrff dyfarnu wneud yn siŵr bod eu cymwysterau'n bodloni gofynion Cymwysterau Cymru.

### Swyddogaeth sicrhau ansawdd

#### Diben sicrhau ansawdd

5.10 Bydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau ansawdd ei gymwysterau ei hun a hefyd gymwysterau cyrff dyfarnu eraill, gyda'r nodau canlynol:

- bod cynnwys yn berthnasol ac yn ddigonol, ac yn adlewyrchu anghenion Cymru, a'i fod hefyd yn ymestyn sgiliau'r dysgwr gan sicrhau cynnydd yn ei waith/addysg;

- bod unrhyw asesiad yn ddilys ac yn briodol mewn perthynas â dibenion y cymhwyster;
- bod yr asesiadau o waith y dysgwyr, sy'n dyfarnu eu bod yn methu neu'n llwyddo, ynghyd â'r penderfyniadau graddio, yn gyson, yn gywir ac yn deg;
- bod cyflogwr yn gallu bod yn hyderus bod dysgwr yn gyflogadwy os bydd yn meddu ar y cymhwyster perthnasol;
- bod gan y dysgwr ac eraill hyder yn y cymhwyster;
- bod diben cymwysterau yn glir ac yn briodol;
- bod dysgwyr ac eraill yn cael gwybodaeth am gymwysterau sy'n gywir ac yn hawdd ei deall.

5.11 Mae unrhyw fath o ddyletswyddau goruchwylio yn esgor ar rywfaint o faich a chostau. Rhaid i Gymwysterau Cymru fodloni ei hun bod y manteision a ddaw yn sgil sicrhau ansawdd yn werth y baich a'r costau. Ni ddylai Cymwysterau Cymru sicrhau ansawdd ond pan fydd angen gwneud hynny, er enghraifft:

- pan fydd hynny'n helpu i wella'r cymwysterau a gynigir yng Nghymru;
- pan fydd angen sicrhau bod trethdalwyr yn cael gwerth am eu harian o ran y cymwysterau sy'n cael eu cyllido gan arian cyhoeddus;
- pan fydd yn ennyn mwy o hyder yn y system;
- pan fydd y manteision sy'n deillio o waith sicrhau ansawdd Cymwysterau Cymru yn cyfiawnhau unrhyw gostau ariannol neu weinyddol sy'n codi mewn perthynas â’i waith neu unrhyw gorff y mae'n sicrhau ei ansawdd.

5.12 Ni fydd cymwysterau'n gymwys i gael eu cyllido gan arian cyhoeddus yn awtomatig dim ond oherwydd bod Cymwysterau Cymru yn sicrhau eu hansawdd. Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniadau cyllido, a hynny ar ôl ystyried y cyngor a roddir iddi gan Gymwysterau Cymru.

### Cwmpas y cyfrifoldeb sicrhau ansawdd

5.13 Yn ogystal â sicrhau ansawdd ei gymwysterau ei hun (TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru), bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi blaenoriaeth i’r gwaith o sicrhau ansawdd y cymwysterau hynny a ddarperir gan gyrff eraill ac sy'n rhan o raglenni dysgu pwysig. O wneud hynny, bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ei weithgareddau ar gymwysterau sy'n cael yr effaith fwyaf ar gyfleoedd bywyd y dysgwr sy'n symud ymlaen i addysg bellach, addysg uwch neu i fyd gwaith. Bydd llawer o'r cymwysterau hyn yn rhai galwedigaethol ar gyfer dysgwyr dros 16 oed, yn enwedig os mai'r cymwysterau

hynny'n yw'r rhan bwysicaf mewn rhaglen ddysgu, megis Bagloriaeth Cymru neu Brentisiaethau. Rydym yn awyddus i ddatblygu deddfwriaeth sy'n caniatáu i Gymwysterau Cymru bennu ei ddull o flaenoriaethu'r cymwysterau y mae'n eu goruchwylio, er mwyn iddo allu canolbwyntio ar y rheini sydd, ym marn y corff, yn fwyaf addas ar gyfer bodloni anghenion Cymru a'i dysgwyr.

5.14 Rydym yn credu mewn prentisiaethau ac yn eu cefnogi yng Nghymru, gan ragweld y gallent ddarparu sail ar gyfer datblygu sgiliau ein cenedl yn y dyfodol. Mae prentisiaethau yn sbarduno'r unigolyn i lwyddo, gan ddod â manteision enfawr i'r gweithle. Fel un o'r rhaglenni dysgu pwysicaf yng Nghymru, mae'n hanfodol bod prentisiaethau'n cael eu goruchwylio'n briodol er mwyn sicrhau ansawdd y cymwysterau, yr asesiadau a chynnwys y rhaglenni. Rydym yn cynnig bod Cymwysterau Cymru yn chwarae rhan bwysig yn y broses oruchwylio. Bydd y rôl hon yn cael ei diffinio dros gyfnod o amser wrth i'r sector ddatblygu.

5.15 Rydym hefyd yn cynnig y dylai Cymwysterau Cymru allu sicrhau ansawdd asesiadau rhai mathau o ddysgu gydol oes. Mae dysgu gydol oes yn gallu creu pont ar gyfer mynd ymlaen i ennill cymwysterau ffurfiol, gan gynnwys rhai o'n dinasyddion mwyaf difreintiedig. Byddai'r sefydliadau sy'n cynnig y rhaglenni hyn yn gallu dewis a ydynt am i Gymwysterau Cymru sicrhau eu hansawdd, pe baent yn penderfynu eu bod am i'r ddysg honno gael ei chydnabod fel hyn. Ar hyn o bryd, rydym yn comisiynu gwerthusiad o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a hefyd Ddysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd. Bydd hwnnw'n casglu tystiolaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru er mwyn iddo allu datblygu ei rôl yn y dyfodol.

5.16 Ni fydd Cymwysterau Cymru yn goruchwylio ac yn sicrhau ansawdd pob cymhwyster a gynigir yng Nghymru. Mae'n debygol mai dim ond y cymwysterau hynny sy'n cael eu dyfarnu gan Gymwysterau Cymru, neu mae Cymwysterau Cymru yn sicrhau eu hansawdd, fydd yn cael arian cyhoeddus, neu'n cael eu hystyried fel rhan o fesurau perfformiad darparwyr. Serch hynny, y tu allan i'r cyd-destunau hynny, bydd cyrff dyfarnu'n cael datblygu a chynnig cymwysterau nad yw eu hansawdd yn cael ei sicrhau. Bydd rhai cyrff dyfarnu yn penderfynu nad ydynt am i ansawdd eu cymwysterau gael ei sicrhau o gwbl, a bydd y cyrff hyn yn parhau i weithredu y tu allan i'r system gymwysterau ffurfiol, er enghraifft cyrff sy'n cynnig cymwysterau mewn partneriaeth â chwmnïau TG rhyngwladol. Bydd darparwyr yn cael dewis a ydynt am gynnig cymwysterau nad yw Cymwysterau Cymru yn sicrhau eu hansawdd. Ni fydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau ansawdd graddau a chyrsiau tebyg eraill gan fod y rheini'n fater i'r prifysgolion, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r cynghorau cyllido addysg uwch.

## Sut bydd y model sicrhau ansawdd yn cael ei weithredu

5.17 Wrth sicrhau ansawdd, bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar y cymwysterau a ddarperir gan y cyrff dyfarnu yn hytrach nag ar y cyrff dyfarnu eu hunain. Fodd bynnag, bydd yn monitro i weld a oes unrhyw broblemau systemig a allai beri risg i gymwysterau neu i ddysgwyr yng Nghymru, gan ofyn i'r corff dyfarnu fodloni gofynion penodol.

5.18 Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu model sicrhau ansawdd sydd yn ystyrlon ac yn effeithiol, ac sy'n cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Bydd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar wella'r system yn y mannau lle mae'r angen mwyaf a lle bydd tystiolaeth y byddai hynny'n fwyaf tebygol o fod yn effeithiol. Disgwylir i gyrff dyfarnu sy'n dewis darparu cymwysterau yng Nghymru ymrwymo i fodloni gofynion Cymwysterau Cymru a'r agenda ar gyfer cymwysterau yng Nghymru.

5.19 Bydd Cymwysterau Cymru yn cyflawni rhai o'r swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, megis monitro cymwysterau a chyrff dyfarnu. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd Cymwysterau Cymru yn awyddus i gael tystiolaeth gryfach bod cyrff dyfarnu wedi ymgysylltu mewn modd ystyrlon â rhanddeiliaid yng Nghymru cyn iddynt ddatblygu a dyfarnu eu cymwysterau, a hefyd yn ystod ac ar ôl y broses honno.

5.20 Bydd Cymwysterau Cymru yn pennu egwyddorion cynllunio lefel uchel ar gyfer cymwysterau. Bydd hynny'n caniatáu i gyrff dyfarnu ddarparu yng Nghymru gymwysterau a ddarperir ganddynt mewn mannau eraill megis Lloegr a Gogledd Iwerddon (os na fydd y cymwysterau hynny'n cael eu cynnig gan, neu ar ran, Cymwysterau Cymru ei hunan). Mewn achos o'r fath, byddai'n rhaid i gorff dyfarnu ddangos sut mae'r cymwysterau yn bodloni anghenion Cymru, a bod galw gwirioneddol amdanynt.

5.21 Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried yn ofalus y cymwysterau y mae cyrff dyfarnu am eu darparu ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Gofynnir i gyrff dyfarnu gyflwyno tystiolaeth fanwl ynghylch pwrpas, perthnasedd, gwerth a llwybrau datblygu'r cymhwyster, a sut y bydd yn cyfrannu at broses ddatblygu'r cyflogwr neu'r darparwr addysg sy'n cynnig y cam nesaf. Bydd Cymwysterau Cymru yn manteisio ar yr arbenigedd sydd ar gael o fewn y sector perthnasol. Byddai hyn yn unol â'r argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad. Caiff y system ei symleiddio o ganlyniad, gan leihau nifer y cymwysterau yn gyffredinol mewn modd a fydd yn ei gwneud yn gliriach i'r dysgwyr, y cyflogwyr a'r rhanddeiliaid eraill.

5.22 Bydd Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn bosibl i'r cyrff dyfarnu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu cymwysterau. Bydd yn rhoi adborth a chymorth iddynt os bydd hynny'n briodol, ond bydd hefyd yn disgwyl i'r

cyrff dyfarnu adolygu a gwerthuso eu cymwysterau a'u gweithrediadau eu hunain. Rhoddir mwy o bwyslais ar allu corff dyfarnu i wella ei ddarpariaeth ei hun.

5.23 Bydd cyrff dyfarnu yn cael eu harfarnu wedyn yn erbyn y gosodiadau a wnaed ganddynt ar ddechrau bywyd y cymhwyster. Os bwriedir i unrhyw gymhwyster fod o gymorth i gael swydd mewn diwydiant penodol, ond ei bod yn dod yn amlwg nad felly y mae wrth i'r cymhwyster gael ei ddarparu, bydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau bod y corff dyfarnu yn atebol am hynny. Bydd Cymwysterau Cymru yn monitro a yw corff dyfarnu yn llwyddo i sicrhau ansawdd cymhwyster ynghyd â'r deilliannau a ddylai ddeillio ohono, a hefyd a yw'n cyrraedd safon ddigon da wrth wneud hynny. Bydd Cymwysterau Cymru yn pennu gofynion sy'n glir ac yn drylwyr y bydd disgwyl i'r corff dyfarnu eu bodloni.

5.24 Bydd llawer o'r pwerau rheoleiddio sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd yn cael eu rhoi i Gymwysterau Cymru. Ymhlith y rheini, mae'r pwerau canlynol:

- y pŵer i bennu gofynion ar gyfer cymwysterau a chyrff dyfarnu;
- y pŵer i achredu cymwysterau, sef i adolygu a chymeradwyo cymhwyster cyn iddo gael ei gynnig;
- y pŵer i fynd i mewn i safle corff dyfarnu ac archwilio a chopïo dogfennau;
- y pŵer i roi cyfarwyddyd i gorff dyfarnu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw gymryd camau penodol, neu beidio â chymryd camau penodol;
- y pŵer i ddirwyo corff dyfarnu neu adennill costau ganddo.

5.25 Os bydd unrhyw beth yn mynd o'i le, bydd dysgwyr ac eraill yn disgwyl i Gymwysterau Cymru ymyrryd ac unioni hynny. Bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio ei bwerau dirwyo, adennill costau a rhoi cyfarwyddyd, ynghyd â dulliau anstatudol eraill, i leihau effaith methiannau, i sicrhau y gwneir yn iawn amdanynt, neu i'w hatal rhag digwydd.

5.26 Hefyd rydym yn awyddus i roi pwerau i Gymwysterau Cymru godi tâl am ei wasanaethau, gan gynnwys ei swyddogaethau sicrhau ansawdd. Byddem yn disgwyl i Gymwysterau Cymru ystyried a yw am godi tâl ai peidio am y gwasanaethau a ddarperir, a hynny fesul achos. Mae'n bwysig nad yw polisi codi tâl yn atal unrhyw gymwysterau gwerthfawr rhag cael eu cynnig yng Nghymru.

5.27 Wrth wneud penderfyniadau, bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio tystiolaeth sydd eisoes wedi ei chasglu, ac ni fydd yn dyblygu gwaith sydd wedi ei wneud yn y gorffennol. Er enghraifft, os bydd sefydliad arall yn ymchwilio i gŵyn, ac yr ymdrinnir â'r gŵyn honno mewn modd

sy'n bodloni Cymwysterau Cymru, mae'n bosibl y bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu nad oes angen iddo ymyrryd. Bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ei adnoddau yn y mannau lle mae'r nifer mwyaf o risgiau.

5.28 Bydd dyletswydd yn cael ei rhoi ar Gymwysterau Cymru i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng ei swyddogaethau sicrhau ansawdd cymwysterau cyrff dyfarnu a'i swyddogaethau dyfarnu ei hunan. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ei ddyletswyddau sicrhau ansawdd a'i ddyletswyddau dyfarnu yn cael eu cadw ar wahân, a hynny er mwyn sicrhau ansawdd y cymwysterau a gynigir yng Nghymru.

### Darparu gwybodaeth

#### Gwybodaeth, cyngor ac ymgysylltu

5.29 Bydd Cymwysterau Cymru yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am gymwysterau. Mae llawer o randdeiliaid yn dibynnu ar wybodaeth am gymwysterau a chyrhaeddiad dysgwyr ac, fel yr awdurdod terfynol ar gymwysterau, bydd angen i Gymwysterau Cymru ddarparu data cywir o ansawdd uchel. Bydd yn rhoi gwybodaeth, ac yn cynnal cronfa ddata hwylus am gymwysterau ar y we. Ar gyfer y cymwysterau y mae'n eu dyfarnu, bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth ystadegol berthnasol.

5.30 Bydd gan Gymwysterau Cymru rôl yn esbonio'r system gymwysterau i randdeiliaid yng Nghymru a thu hwnt. Bydd gan Gymwysterau Cymru rôl sylweddol i'w chwarae yn gweithredu'r strategaeth gyfathrebu hirdymor ar gyfer y DU gyfan i hyrwyddo ac esbonio'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru. Mae'n bwysig bod pobl ledled y DU a thu hwnt yn deall ein cymwysterau yng Nghymru yn llawn. Bydd hyn yn agor mwy o ddrysau i'n dysgwyr fod yn fwy symudol a bydd yn helpu i greu llafurlu hyblyg. Mae adnoddau presennol fel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a mentrau Ewropeaidd yn debygol o fod yn werthfawr. Bydd angen i Gymwysterau Cymru ymgysylltu â phartneriaid yn y DU ac â chydweithwyr yn Ewrop ar fentrau Ewropeaidd.

5.31 Bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi cyngor annibynnol arbenigol i Weinidogion Cymru ar y materion perthnasol. Bydd hefyd yn ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol eraill, yng Nghymru a thu hwnt, i ddylanwadu arnynt a chael tystiolaeth ganddynt. Bydd yn cynnal astudiaethau perthnasol ar gymwysterau yng Nghymru i'w gwella a sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn cyflawni eu diben.

5.32 Bydd Cymwysterau Cymru yn gwbl dryloyw yn ei weithgareddau a'i gasgliadau. Bydd yn cyhoeddi adroddiadau ar ei waith craffu a monitro, o ran y cymwysterau y mae'n sicrhau eu hansawdd a'r cymwysterau y mae'n eu cynnig.

5.33 Bydd Cymwysterau Cymru yn ceisio datblygu protocolau gwaith gyda chyrff perthnasol, fel sefydliadau addysg eraill, yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y rhain yn cynnwys rheoleiddwyr cymwysterau yn y DU. Bydd Cymwysterau Cymru yn datblygu'r cytundebau hyn i rannu gwybodaeth er mwyn lleihau'r baich ar y rheini sy'n rhan o'r system ac er mwyn meincnodi cymwysterau yng Nghymru yn erbyn y rheini y tu allan i Gymru. O ran yr elfennau o'r system nad ydynt o dan ei reolaeth uniongyrchol, bydd yn ceisio dylanwadu ar gyrff perthnasol eraill er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

### Cymorth a chyngor i ymarferwyr

5.34 Er mwyn i'r system gymwysterau yng Nghymru gael ei gweithredu'n effeithiol, nid yw cael cymwysterau o ansawdd uchel yn ddigon. Mae hefyd yn hanfodol bod yna athrawon, darlithwyr a darparwyr dysg yng Nghymru sydd wedi'u hyfforddi i lefel uchel a'u paratoi'n drwyadl. Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithio gydag eraill i ofalu bod athrawon a hyfforddwyr yn cael cymorth a hyfforddiant perthnasol o ansawdd uchel. Bydd angen am y cymorth hwn yn arbennig pan gyflwynir cymwysterau newydd, ond bydd ei angen hefyd tra pery'r cymwysterau. Dros amser, byddwn yn ystyried rôl Cymwysterau Cymru mewn perthynas â chymorth a chyngor i ymarferwyr. Gall ei rôl gael ei hehangu a'i datblygu yn ôl yr angen er mwyn cefnogi system addysg o ansawdd uchel yng Nghymru.

## Swyddogaeth ddyfarnu

5.35 Ymhen ychydig, Cymwysterau Cymru fydd yn gyfrifol am ddyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau disgyblion 14 i 16 oed yn ogystal â Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Ar unrhyw adeg, bydd yna ddysgwyr sydd wrthi'n dewis cymwysterau, yn dechrau arnynt, ar eu canol, yn dod i'w diwedd neu'n eu hailsefyll, ac mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod y cymwysterau yn cynnig yr opsiynau gorau posibl i bob grŵp ac, yn y cyfnod pontio â Chymwysterau Cymru, na fydd unrhyw un dan anfantais nac yn manteisio'n annheg.

5.36 Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ganolfannau a dysgwyr, ac er mwyn lleihau'r risg i'r system, caiff y gyfres unigol o gymwysterau ei chyflwyno'n raddol. Rhaid inni gydbwyso'r angen i wneud y newidiadau iawn am y rhesymau iawn â'r perygl o wneud newidiadau yn rhy gyflym a pheryglu cymwysterau dysgwyr sy'n astudio ar hyn o bryd. Mae dyfarnu cymwysterau uchel-eu-proffil y mae llawer yn dibynnu arnynt, megis TGAU a Safon Uwch, yn dasg gymhleth ac anodd, a rhaid inni sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ennill cymwysterau o ansawdd uchel a chael eu hasesu'n deg ar bob cam o'r broses bontio. Mae newidiadau graddol yn ei gwneud yn haws pontio'n ddidrafferth o'r system bresennol ac maent yn amharu'n llai ar ysgolion a dysgwyr. Byddwn yn cydweithio â Chymwysterau Cymru i bennu amserlenni ar gyfer y cyfnod pontio.

5.37 Rydym yn cynnig y dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu pwerau dyfarnu ar gyfer Cymwysterau Cymru sydd mor hyblyg â phosibl er mwyn caniatáu iddo benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni ei swyddogaeth ddyfarnu, yn y tymor canolig ac yn y tymor hirach. Dyma rai enghreifftiau o sut y gallai fynd ati i weithredu:

- ei gwneud yn ofynnol creu un fersiwn o rai mathau o gymwysterau ar gyfer Cymru gyfan;
- cydweithio ag un neu fwy o'r prif gyrff dyfarnu neu uno â nhw; neu
- comisiynu neu gontractio gyda sefydliadau eraill i ddarparu elfennau o'r broses ddyfarnu yn achos rhai mathau neu grwpiau o gymwysterau.

5.38 Fodd bynnag, wrth gyflawni ei swyddogaethau dyfarnu, bydd Cymwysterau Cymru yn atebol am benderfyniadau allweddol am y cymwysterau hynny, megis y cynnwys, ffurf yr asesiad, lefel y galw ac, yn y pen draw, y graddau a ddyfernir.

5.39 Bydd angen i Gymwysterau Cymru sicrhau bod ei gymwysterau yn cyflawni eu diben, yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad helaeth â'r rhanddeiliaid perthnasol ledled Cymru a thu hwnt, ac yn seiliedig ar dystiolaeth o arferion gorau a dulliau arloesol o bob rhan o'r byd. Rhagwelir mai'r cymwysterau cyntaf i gael eu dyfarnu yn enw Cymwysterau Cymru fydd y fersiynau diwygiedig o TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Gweinidogion Cymru sy'n berchen ar enwau brand y cymwysterau hyn, mewn rhai achosion ar y cyd ag Ofqual a CCEA, ond bydd yr hawl i'r rhain yn cael ei throsglwyddo oddi wrth y Gweinidogion i Gymwysterau Cymru. Bydd gwybodaeth glir am gynnwys y cymwysterau a'r galw sydd amdanynt yn caniatáu i Gymwysterau Cymru gynnig TGAU a Safon Uwch yng Nghymru sy'n debyg i TGAU a Safon Uwch blynyddoedd a fu. Serch hynny, gallai'r strwythur, y cynnwys a/neu'r dulliau asesu fod yn wahanol, er enghraifft, i'r cymwysterau a reoleiddir gan Ofqual ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed a disgyblion 16 i 19 oed a fydd yn deillio o ddiwygiadau arfaethedig yn Lloegr.

5.40 Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am ddatblygu cymwysterau a, gan roi sylw dyledus i'r cwricwlwm cenedlaethol, dylai arwain y ffordd o ran datblygu cynnwys rhaglenni dysgu sy'n arwain yn uniongyrchol at gymwysterau Cyfnod Allweddol 4 (TGAU yn bennaf). Er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r cymwysterau, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn pennu gofynion penodol o ran cynnwys y rhaglenni, er enghraifft y sylw a roddir i faterion sy'n ymwneud â Chymru, neu gysylltiad â safonau llythrennedd a rhifedd.

5.41 Bydd Cymwysterau Cymru yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ddatblygu'r rhan fwyaf o elfennau asesu ac ansawdd y cymwysterau hyn. Er

enghraifft, efallai y bydd yn gwneud penderfyniadau ar y math o asesiad sy'n addas ar gyfer pwnc penodol. Wrth arwain y gwaith datblygu hwn, bydd yn gwneud hynny mewn ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys athrawon, arbenigwyr pwnc ac asesu, a'r rheini sy'n defnyddio'r cymhwyster at ddibenion recriwtio neu ddatblygu.

5.42 Maes o law, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr 14 i 16 oed, a'r rheini sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch, yn ennill cymwysterau a ddyfernir gan Gymwysterau Cymru. Serch hynny, ni fydd yn gost-effeithiol i Gymwysterau Cymru ddyfarnu cymwysterau ym mhob pwnc. Nifer cymharol fach o ddisgyblion sy'n dilyn rhai cyrsiau TGAU a Safon Uwch, er enghraifft cyrsiau mewn rhai ieithoedd tramor. Lle nad yw'n ymarferol i Gymwysterau Cymru ddatblygu ei gymwysterau ei hun mewn pynciau o'r fath, bydd yn cydweithio â chyrff dyfarnu i'w galluogi i ddarparu eu fersiynau presennol o'u cymwysterau yng Nghymru. Eithriadau fydd y rhain, a chaiff y mwyafrif helaeth o gymwysterau TGAU a Safon Uwch eu cynnig gan Gymwysterau Cymru drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.

5.43 Maes o law, wrth iddo ddechrau dyfarnu ei gymwysterau ei hun, bydd gan Gymwysterau Cymru y pŵer i godi ffïoedd am ei gymwysterau. Byddwn yn adolygu'r model cyllid i ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i ystyried ai'r model cyfredol ar gyfer cyllido cymwysterau, lle maent yn talu ffi mynediad, yw'r model mwyaf priodol.

### Addasrwydd y cymwysterau

5.44 Bydd Cymwysterau Cymru yn diogelu ansawdd y cymwysterau mae'n eu cynnig ac yn eu dyfarnu. Bydd y Bil Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn cynnwys amcanion, yn ogystal â system i gadw cydbwysedd, yn fframwaith statudol Cymwysterau Cymru a'i strwythur llywodraethu i ofalu bod hyn yn digwydd. Er enghraifft gallai roi amcan statudol i Gymwysterau Cymru i ddarparu cymwysterau cyson, o ansawdd uchel i ddysgwyr yng Nghymru. Gellid rhoi dyletswydd ar Gymwysterau Cymru hefyd i roi adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar y camau y mae wedi'u cymryd i gynnal neu wella ansawdd y cymwysterau y mae'n eu cynnig. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw bwerau ymyrryd sy'n ofynnol i godi safonau pan aiff pethau o'i le. Byddwn yn rhoi dyletswydd arno i ofalu nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng ei swyddogaethau dyfarnu a'i swyddogaethau mewn perthynas â sicrhau ansawdd cymwysterau cyrff dyfarnu.

5.45 Bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ar addasrwydd ei gymwysterau i gyflawni eu diben. Mae llawer o wahanol ffyrdd o fesur pa mor addas yw cymhwyster i gyflawni ei ddiben. Ein hoff linynnau mesur yw:

- a yw cymhwyster yn gwneud yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud;

- a yw'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn galluogi dysgwyr i ddatblygu;
- a yw'n mesur yr hyn a gyflawnir gan ddysgwyr yn effeithiol.

5.46 Bydd Cymwysterau Cymru yn gofalu bod ei gymwysterau yn cyflawni eu diben drwy:

- sicrhau bod y broses o ddatblygu cymwysterau yn cynnwys ymgynghori'n eang ac yn fanwl â rhanddeiliaid;
- datblygu prosesau craffu ac adolygiad trwyadl ac ystyrlon;
- cynnwys elfennau o graffu allanol i sicrhau her ar wahanol adegau yng nghylch oes y cymhwyster;
- defnyddio data cymharu i feincnodi perfformiad dysgwyr yng nghymwysterau allweddol Cymru.

5.47 Rydym wedi dechrau'r ddeialog gyda'r sefydliadau cymwysterau perthnasol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon i drafod datblygu system adolygu cymheiriaid er mwyn dysgu oddi wrth ein gilydd a chymharu cymwysterau. Bydd Cymwysterau Cymru yn cydweithio â'r sefydliadau hyn i ddatblygu'r gwaith hwn.

5.48 Yn ogystal â sicrhau ansawdd, bydd Cymwysterau Cymru yn casglu tystiolaeth ychwanegol megis, er enghraifft, astudiaethau hydredol, data cohortau a mesurau eraill megis PISA, er mwyn mesur cynnydd dysgwyr o flwyddyn i flwyddyn a mesur pa mor anodd yw cymwysterau. Bydd Cymwysterau Cymru yn mesur ei gymwysterau yn erbyn cymwysterau eraill a gynigir yng Nghymru a thu hwnt i sicrhau bod ei gymwysterau cystal â'r gorau yn y byd. Bydd yn cyhoeddi ei gasgliadau.

## Sut byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth – cwestiynau

4. Ydych chi’n credu y bydd y gweithgareddau a’r swyddogaethau hyn yn gwireddu’r weledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru?
5. Beth yw eich barn am y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cymru?
6. Beth yw eich barn am gylch gorchwyl a swyddogaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru? Ydych chi’n meddwl bod ei swyddogaethau yn weddol briodol neu a ddylai gael cylch gwaith gwahanol?
7. Beth ddylai Cymwysterau Cymru ei wneud i gryfhau hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a gynigir yng Nghymru?
8. Yn eich barn chi, sut ac i ba raddau y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr a/neu unrhyw gategorïau rhanddeiliaid penodol?
9. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

# 6. Geirfa

| | |
|---|---|
| Safon Uwch | Y prif gymhwyster y mae pobl ifanc 16-19 oed yn astudio ar ei gyfer. |
| AQA | Corff dyfarnu sy’n cynnig nifer o gymwysterau, gan gynnwys TGAU a Safon Uwch. |
| Corff dyfarnu | Corff y mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod fel corff sy'n dyfarnu credydau a chymwysterau. |
| Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) | Corff dyfarnu sy'n cynnig nifer o gymwysterau, gan gynnwys TGAU a Safon Uwch. Mae hefyd yn rheoleiddio cymwysterau, nad ydynt yn gymwysterau galwedigaethol, a gynigir yng Ngogledd Iwerddon. |
| Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru | Fframwaith sy’n ei gwneud yn bosibl cydnabod a chymharu cyrhaeddiad yn sgil gwahanol fathau o weithgarwch addysg a hyfforddiant. |
| Credyd | Mae credydau’n cael eu dyfarnu i ddysgwr i gydnabod ei fod wedi llwyddo i ennill deilliannau dysgu dynodedig unedau dysgu. |
| Edexcel | Corff dyfarnu sy'n cynnig nifer o gymwysterau gan gynnwys TGAU a Safon Uwch. |
| TGAU | Y prif gymhwyster y mae pobl ifanc 14-16 oed yn astudio ar ei gyfer. |
| Cyfnodau Allweddol | Cyfnodau o fewn y system addysg wladol. |
| Lefel | Mae lefel yn dangos, mewn modd cymharol, y galw ar gyfer cyrhaeddiad, ei gymhlethdod a'i ddwyster, a/neu pa mor annibynnol fu'r dysgwr wrth ei ennill. |
| Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol | Mae’r safonau hyn yn pennu safonau perfformiad y mae'n rhaid i unigolyn eu cyrraedd wrth gyflawni swyddogaethau yn y gweithle, a hefyd yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol sy’n sail i hynny. |
| OCR | Corff dyfarnu sy’n cynnig nifer o gymwysterau, gan gynnwys TGAU a Safon Uwch . |
| Ofqual | Mae Ofqual yn rheoleiddio cymwysterau, arholiadau ac asesiadau yn Lloegr, a chymwysterau galwedigaethol yng Ngogledd Iwerddon. |
| Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) | Nod y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (sef PISA) yw gwerthuso systemau addysg |

| | |
|---|---|
| | ledled y byd trwy werthuso cymwyseddau mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. |
| Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd | Mae’r dysgu hwn yn fecanwaith ar gyfer cydnabod yr wybodaeth a'r sgiliau y mae dysgwr wedi eu hennill. Mae'n mesur lefel y dysgu, gan sicrhau ei ansawdd a dyfarnu credydau ar ei gyfer. |
| Yr Adolygiad | *Yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i19 oed yng Nghymru* |
| Y Cynghorau Sgiliau Sector | Sefydliadau annibynnol yw’r rhain sy'n gweithredu ledled y DU. Maent yn cael eu harwain gan gyflogwyr, a'u nod yw creu system ennill sgiliau sy'n cael ei llywio gan anghenion y cyflogwyr. |
| Awdurdod Cymwysterau’r Alban (yr SQA) | Mae Awdurdod Cymwysterau’r Alban (sef yr SQA) yn gorff dyfarnu sy'n gyfrifol am reoleiddio yn yr Alban. |
| Bagloriaeth Cymru | Cymhwyster sydd ar gael i ddysgwyr 14-19 oed. |
| CBAC | Corff dyfarnu sy'n cynnig nifer o gymwysterau, gan gynnwys TGAU a Safon Uwch |